# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A483 A'R A489 (Y DRENEWYDD, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2016

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A483 a'r A489 yn y Drenewydd, Powys, neu gerllaw iddynt.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 08:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2016 a byddant yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o naill ai 30 mya, 20 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau canlynol o gefnffyrdd yr A483 a'r A489:

i. y darn hwnnw o'r A483 sy'n ymestyn tua'r de-orllewin o derfynfa'r terfyn cyflymder 30 mya i'r de o'i chyffordd â Ffordd Dolfor Uchaf hyd at bwynt 465 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i Ffrydd Vaughan, y Drenewydd;

ii. y darn hwnnw o'r A483 sy'n ymestyn tua'r dwyrain o derfynfa'r terfyn cyflymder 40 mya presennol ger Gro Cottages, Pool Road, y Drenewydd hyd at bwynt 228 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2647 i Froniarth;

iii. y darn hwnnw o'r A489 sy'n ymestyn tua'r gorllewin o ochr gorllewinol Cylchfan Mochdre, y Drenewydd hyd at bwynt 517 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y fynedfa i Glanhafren Hall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2016).

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A483 & A489 TRUNK ROADS (NEWTOWN, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING) ORDER 2016

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 and A489 trunk roads at Newtown, Powys.

It is expected that the restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 08:00 hours on 7 March 2016 and remain for a maximum duration of 18 months.

The effect of the Order is to temporarily impose a 30 mph, 20 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the following lengths of the A483 and A489 trunk roads:

i. the length of the A483 that extends in a south-westerly direction from the existing 30 mph speed limit terminus south of its junction with Upper Dolfor Road to a point 465 metres south of the centre-point of the access to Ffrydd Vaughan, Newtown;

ii. the length of the A483 that extends in an easterly direction from the existing 40 mph speed limit terminus near Gro Cottages, Pool Road, Newtown to a point 228 metres west of the centre-point of its junction with the unclassified road U2647 to Broniarth;

iii. the length of the A489 that extends in a westerly direction from the western side of Mochdre Roundabout, Newtown to a point 517 metres west of the centre-point of the access to Glanhafren Hall.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2016).

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE